**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 2911 (Cy.208)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd wedi'u gwneud o dan adran 33(3) o Deddf Addysg 2002, yn darparu ar gyfer esemptio cyrff llywodraethu ysgolion rhag y gofyniad cyffredinol i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni mewn amgylchiadau penodol. Mae'r Rheoliadau yn dod i rym ar 31 Hydref 2005.

Mae rheoliad 2 yn dirymu y Rheoliadau Addysg (Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni) (Cymru) 1999.

Dyma'r amgylchiadau y bydd corff llywodraethu yn esempt rhag y gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni danynt:

Rheoliad 4- os, yn achos ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig, yw'r ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty neu os yw'r ysgol yn ysgol fyrddio a gynhelir a bod y corff llywodraethu o'r farn y byddai'n anymarferol i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni;

Rheoliad 5- os cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn ac y cafodd cyfarfod rhieni ei gynnal i drafod adroddiad yr arolygydd cyn bod y corff llywodraethu yn llunio'i gynllun gweithredu;

Rheoliad 6- os yw'r corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod neu gyfres o gyfarfodydd y cafodd pob rhiant wahoddiad iddo neu iddynt ac a gafodd ei fynychu neu eu mynychu (yn ôl y digwydd) gan dri neu fwy o lywodraethwyr ac os yw'r rhieni wedi cael cyfle i drafod rhedeg yr ysgol yn y gorffennol ac yn y dyfodol;

Rheoliad 7- os yw'r corff llywodraethu yn rhoi i rieni gyda'i Adroddiad hysbysiad yn gofyn i rieni ymateb o

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 2911 (W.208)

# EDUCATION, WALES

## The Annual Parents' Meeting (Exemptions) (Wales) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, made under section 33(3) of the Education Act 2002, provide for school governing bodies to be exempt from the general requirement to hold an annual parents' meeting ("APM") in certain circumstances. The Regulations come into force on 31 October 2005.

Regulation 2 revokes the Education (Annual Parents' Meetings) (Wales) Regulations 1999.

The circumstances in which a governing body is exempt from the requirement to hold an APM are as follows:

Regulation 4- if, in the case of a community special or foundation special school, the school is established in a hospital or the school is a maintained boarding school and the governing body considers it would be impractical to hold an APM;

Regulation 5- if the school has been inspected by Estyn and a parents' meeting has been held to discuss the inspector's report before the governing body draws up its action plan;

Regulation 6- if the governing body has held a meeting or series of meetings to which all parents have been invited, which has or (as the case may be) have been attended by three or more governors and parents have had the opportunity to discuss the past and future conduct of the school;

Regulation 7- if the governing body gives to parents with its Report a notice asking parents to respond

fewn dim llai na 7 niwrnod os ydynt yn dymuno i'r corff llywodraethu gynnal y cyfarfod blynyddol rhieni ac os yw rhieni llai na 5% o'r disgyblion yn ymateb.

Mae rheoliad 8 yn datgymhwyso'r esemptiadau yn rheoliadau 5, 6 a 7 os na chynhaliwyd cyfarfod blynyddol rhieni yn y flwyddyn flaenorol neu os yw'r corff llywodraethu yn cael cais ysgrifenedig oddi wrth rieni 5% neu fwy o'r disgyblion cofrestredig i gynnal cyfarfod o'r fath.

Cafodd arfarniad rheoliadol ei baratoi a'i roi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.cymru.gov.uk). Gellir cael copïau oddi wrth Is-adran Rheolaeth Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

within not less than 7 days if they wish the governing body to hold the APM and the parents of fewer than 5% of pupils respond.

Regulation 8 disapplies the exemptions in regulations 5, 6 and 7 if no APM is held in the preceding year or if the governing body receives a written request from the parents of 5% or more of the registered pupils for there to be such a meeting.

A regulatory appraisal has been prepared and placed on the National Assembly for Wales website (www.wales.gov.uk). Copies can be obtained from the Welsh Assembly Government Schools Management Division, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 2911 (Cy.208)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *18 Hydref 2005* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 33(3) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu**

**2**. Dirymir Rheoliadadau Addysg (Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni) (Cymru) 1999(**2**).

**Dehongli**

**3**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad mewn darpariaeth yn y Rheoliadau hyn-

(a) at y corff llywodraethu neu gorff llywodraethu ysgol yn gyfeiriad at gorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r ddarpariaeth yn gymwys iddi;

(b) at riant yn gyfeiriad at riant i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol y mae'r ddarpariaeth yn gymwys iddi;

(c) at ysgol yn gyfeiriad at ysgol a gynhelir o fewn ystyr "maintained school" yn adran 39(1) o Ddeddf 2002.

(**1**) 2002 p. 32. I gael diffiniad "regulations" *gweler* adran 212.

(**2**) O.S. 1999/1407.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 2911 (W.208)

# EDUCATION, WALES

## The Annual Parents' Meeting (Exemptions) (Wales) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *18 October 2005* |
| *Coming into force* | *31 October 2005* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 33(3) and 210(7) of the Education Act 2002(**1**), makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Annual Parents' Meeting (Exemptions) (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 31 October 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Revocations**

**2**. The Education (Annual Parents' Meetings) (Wales) Regulations 1999(**2**) are revoked.

**Interpretation**

**3**.-(1) In these Regulations "the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002.

(2) Any reference in a provision of these Regulations to-

(a) the governing body or to the governing body of a school is a reference to the governing body of any school to which the provision applies;

(b) a parent is a reference to a parent of a registered pupil at the school to which the provision applies;

(c) a school is a reference to a maintained school within the meaning of section 39(1) of the 2002 Act.

(**1**) 2002 c. 32. For the definition of "regulations" *see* section 212.

(**2**) S.I. 1999/1407.

**Esemptiad ar gyfer ysgolion arbennig ysbytai ac ysgolion byrddio.**

**4**. Mae corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir dan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni-

(a) os yw'r ysgol yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig sefydledig a gafodd ei sefydlu mewn ysbyty a bod y corff llywodraethu o'r farn y byddai'n anymarferol cynnal cyfarfod o'r fath yn y flwyddyn ysgol honno; neu

(b) os yw'r ysgol yn ysgol a gynhelir heblaw un o fewn paragraff (a), a bod y corff llywodraethu o'r farn y byddai'n anymarferol cynnal cyfarfod o'r fath yn y flwyddyn ysgol honno, a bod o leiaf 50% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol yn ddisgyblion byrddio ar yr adeg y ffurfir y farn honno gan y corff llywodraethol.

**Esemptiad i ysgolion sy'n cynnal cyfarfod ar ôl arolygiad**

**5**. Mae'r corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir gan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni am y flwyddyn ysgol y caiff y cyfarfod y cyfeirir ato ym mharagraff (b) ei gynnal-

(a) os cafodd yr ysgol ei harolygu o dan adran 10 o Deddf Arolygu Ysgolion 1996(**1**) gan arolygydd cofrestredig, ac

(b) os yw'r corff llywodraethu, o fewn y cyfnod a ragnodwyd yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru)1998(**2**) ar gyfer paratoi cynllun gweithredu, wedi cynnal cyfarfod y cafodd pob rhiant wahoddiad iddo i drafod adroddiad yr arolygydd cofrestredig.

**Esemptiad i ysgolion sy'n cynnal cyfarfodydd eraill**

**6**. Os bydd y corff llywodraethu, mewn unrhyw flwyddyn ysgol, yn cynnal cyfarfod y cafodd pob rhiant wahoddiad iddo, neu gyfres o gyfarfodydd a bod pob rhiant yn cael gwahoddiad i o leiaf un o'r gyfres, a bod-

(a) rhieni dim llai na 20% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol yn mynychu'r cyfarfod neu o leiaf un mewn cyfres;

(b) rhieni yn cael cyfle yn y cyfarfod neu ym mhob un o'r gyfres o gyfarfodydd (yn ôl y digwydd) i drafod y dull y cafodd yr ysgol ei rhedeg, a'r dull y bydd yn cael ei rhedeg, a pherfformiad yr ysgol, ac

(**1**) 1996 p.57.

(**2**) O.S. 1998/1866. Diwygiwyd rheoliad 8(1) gan O.S. 2004/784 (Cy. 81).

**Exemption for hospital special schools and boarding schools**

**4**. A governing body is exempt from the obligation imposed by section 33(1) of the 2002 Act to hold an annual parents' meeting if-

(a) the school is a community special school or a foundation special school which is established in a hospital and the governing body is of the opinion that it would be impracticable to hold such a meeting in that school year; or

(b) the school is a maintained school other than one within paragraph (a), and the governing body is of the opinion that it would be impracticable to hold such a meeting in that year, and at least 50% of the registered pupils at the school are boarders at the time when they form that opinion.

**Exemption for schools that hold a post-inspection meeting**

**5**. The governing body is exempt from the obligation imposed by section 33(1) of the 2002 Act to hold an annual parents' meeting for the school year in which the meeting referred to in paragraph (b) is held if-

(a) the school has been inspected under section 10 of the School Inspections Act 1996(**1**) by a registered inspector, and

(b) the governing body has, within the period prescribed by regulation 8(1) of the Education (School Inspections) (Wales) Regulations 1998(**2**) for the preparation of the action plan, held a meeting to which all parents have been invited to discuss the registered inspector's report.

**Exemption for schools that hold other meetings**

**6**. If, in any school year, the governing body holds a meeting to which all parents are invited, or a series of meetings and all parents are invited to at least one of the series, and-

(a) the parents of no less than 20% of registered pupils at the school attend the meeting or at least one in a series;

(b) parents have the opportunity at the meeting or at each of the series of meetings (as the case may be) to discuss the manner in which the school has been, and is to be, conducted and the performance of the school, and

(**1**) 1996 c.57.

(**2**) S.I. 1998/1866. Regulation 8(1) was amended by S.I. 2004/784 (W.81).

(c) tri neu fwy o lywodraethwyr yn mynychu'r cyfarfod neu bob cyfarfod yn y gyfres (yn ôl y digwydd),

mae'r corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir dan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni ar gyfer y flwyddyn ysgol y cynhelir y cyfarfod neu (yn ôl y digwydd) gyfres y cyfarfodydd ynddi.

**Esemptiad os nad yw rhieni yn ymateb i'r hysbysiad o gyfarfod**

**7**. Mae'r corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir o dan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni mewn unrhyw flwyddyn ysgol pan fydd yn rhoi i rieni gydag adroddiad y llywodraethwyr hysbysiad yn gofyn i rieni ddatgan yn ysgrifenedig o fewn cyfnod penodedig nad yw'n llai na 7 niwrnod os yw'n ofynnol ganddynt i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol rhieni a bod rhieni llai na 5% o'r disgyblion cofrestredig yn ymateb o fewn y cyfnod penodedig.

**Datgymhwyso esemptiadau**

**8**. Nid yw'r esemptiadau yn rheoliadau 5, 6 ac 7 yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn ysgol-

(a) os na chafodd cyfarfod blynyddol rhieni ei gynnal yn y flwyddyn flaenorol; neu,

(b) os yw'r corff llywodraethu, cyn 31 Mai yn y flwyddyn ysgol honno, yn cael cais ysgrifenedig gan rieni dim llai na 5% o'r disgyblion cofrestredig i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

18 Hydref 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 c.38.

(c) three or more governors attend the meeting or each meeting of the series (as the case may be),

the governing body is exempt from the obligation imposed by section 33(1) of the 2002 Act to hold an annual parents' meeting for the school year in which the meeting is, or (as the case may be) series of meetings are, held.

**Exemption if parents do not respond to the notice of meeting**

**7**. The governing body is exempt from the obligation imposed by section 33(1) of the 2002 Act to hold an annual parents' meeting in any school year in which it gives to parents with the governors' report a notice asking parents to state in writing within a specified period of not less than 7 days if they require the governing body to hold an annual parents' meeting and the parents of fewer than 5% of registered pupils respond within the specified period.

**Disapplication of exemptions**

**8**. The exemptions in regulations 5, 6 and 7 do not apply in any school year if-

(a) no annual parents' meeting was held in the preceding year; or,

(b) before 31 May in that school year, the governing body receives a written request from the parents of no less than 5% of registered pupils that an annual parent's meeting be held.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

18 October 2005

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1996 p.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

**2005 Rhif 2911 (Cy.208)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

**2005 No. 2911 (W.208)**

**EDUCATION, WALES**

The Annual Parents' Meeting (Exemptions) (Wales) Regulations 2005

©h Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W148/10/05 ON